

The Owner / Occupier

**Fy Nghyf/ My Ref:**  
**P43-06/AMC**

**Eich Cyf/ Your Ref:**

**Dyddiad/ Date:**  
21 February 2018

Dear Sir / Madam,

**PROPOSED CONVERSION OF ZEBRA CROSSING, PENRHIWCEIBER ROAD  
PENRHIWCEIBER**

You may be aware that the council are currently developing proposals to replace the existing Zebra Pedestrian Crossing on Penrhiwceiber Road with a signalised Puffin type Pedestrian Crossing.

The new Puffin Crossing will be located approximately 10 metres north of the existing crossing which will allow better visibility for both pedestrians and motorists.

Details of the proposals are shown on the attached drawing G-6-1. You may also wish to view the proposals at [www.rctcbc.gov.uk/traffic](http://www.rctcbc.gov.uk/traffic)

I shall be pleased to receive your observations on this proposal and for your convenience, a pro forma and a postage paid addressed envelope is enclosed. Alternatively you may wish to respond by e-mail to [trafficservices@rctcbc.gov.uk](mailto:trafficservices@rctcbc.gov.uk) Responses should be returned to me with your observations by 14/03/2018

Your comments are important to us and will help the Council in its decision making process. Any comments received will help us decide whether to make changes to the proposals and all observations relating to the scheme will be taken into consideration, however the Council will make no formal response to your comments at this stage.

In addition to converting the pedestrian crossing, improvements will also be made to the existing bus stops.

I trust the above is of assistance but should you require further information, please do not hesitate to contact me.

Regards  
Andrew McGowan  
Uwch Beiriannydd, Materion Rheoli Traffig  
Senior Engineer, Traffic Management

Ty Sardis/Sardis House  
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU  
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU


Ffôn/Tel: 01443 425001  
Ffacs/Fax: 01443 490414

**Chris Lee C.P.F.A**

Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen | Group Director, Corporate and Frontline Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhwch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.  
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



Y Perchennog/Meddiannydd

**Fy Nghyf:/My Ref:**  
**P43 -06/AMC**

**Eich Cyf:/Your Ref:**

**Dyddiad:/Date:**  
21 February 2018

Annwyl Syr/Fadam

**BWRIAD I ADDASU CROESFAN SEBRA, HEOL PENRHIW-CEIBR, PENRHIW-CEIBR**

Mae'n bosibl eich bod chi'n gwybod bod y Cyngor, ar hyn o bryd, yn paratoi cynigion i sefydlu croesfan pâl (sy'n cynnwys arwyddion traffig) yn lle'r groesfan sebra bresennol ar Heol Penrhiw-ceibr.

Bydd y groesfan pâl newydd yn cael ei sefydlu tua 10 metr i'r gogledd o safle'r groesfan bresennol. Bydd hyn yn caniatáu i gerddwyr a modurwyr weld ei gilydd yn well.

Mae llun G-6-1 yn cynnwys y manylion ynglŷn â'r cynllun arfaethedig. Efallai y byddwch chi'n dymuno gweld y cynlluniau arfaethedig ar wefan [www.rctcbc.gov.uk/traffic](http://www.rctcbc.gov.uk/traffic)

Mae croeso i chi anfon eich sylwadau aton ni ynglŷn â'r cynnig yma. Er hwylustod, mae ffurflen ac amlen barod ynghlwm wrth y llythyr yma. Fel arall, mae croeso i chi ymateb drwy anfon neges e-bost i [GwasanaethauTraffig@rhondda-cynon-taf.gov.uk](mailto:GwasanaethauTraffig@rhondda-cynon-taf.gov.uk). Anfonwch eich sylwadau aton ni erbyn 14/03/18.

Mae'ch sylwadau chi'n bwysig i ni a byddan nhw o gymorth i'r Cyngor yn ystod y broses o ddod i benderfyniad. Bydd unrhyw sylwadau sy'n dod i law yn ein helpu ni i benderfynu a fydd eisiau gwneud unrhyw newidiadau i'r cynigion. Byddwn ni'n ystyried yr holl sylwadau ynglŷn â'r cynllun, ond, fydd dim ymateb ffurfiol iddyn nhw yn ystod y cyfnod yma.

Yn ogystal ag addasu'r groesfan i gerddwyr, byddwn ni hefyd yn gwella'r safleoedd bysiau presennol.

Rydw i'n gobeithio bydd yr uchod o gymorth, ond, os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch chi, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir  
Andrew McGowan  
Uwch Beiriannydd, Materion Rheoli Traffig  
Senior Engineer, Traffic Management

**Tŷ Sardis/Sardis House**  
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU  
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001  
Ffacs/Fax: 01443 490414

**Chris Lee C.P.F.A**

Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen | Group Director, Corporate and Frontline Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhwch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.  
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

